

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: Rebecca Williams

Sefydliad (lle bo'n berthnasol): UCAC

e-bost/rhif ffôn: rebecca@ucac.cymru / 01970 639950

Eich cyfeiriad:

UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU

Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno â'r cynigion i atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer partneriaeth gymdeithasol drwy gyflwyno deddfwriaeth i roi sail statudol iddynt?

Er nad oes manylder i'r cynigion ar hyn o bryd, cytuna UCAC â'r egwyddor o roi sail statudol i drefniadau partneriaeth gymdeithasol. Cytunwn y bydd gosod seilwaith cyfreithiol cadarn yn fodd i atgyfnerthu ac ymestyn y trefniadau, ac y bydd hynny yn ei dro yn cyfrannu at wella amodau bywyd a gwaith dinasyddion Cymru. Mi fydd hyn yn bwysicach fyth yn sgil y perygl o golli hawliau ac amddiffynfeydd i weithwyr wrth ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Cwestiwn 2: A ydych yn cytuno y bydd atgyfnerthu trefniadau ar gyfer partneriaeth gymdeithasol yn ategu uchelgeisiau Llywodraeth Cymru i sicrhau Cymru fwy cyfartal?

Cytunwn yn llwyr fod gwaith teg yn 'fudd sylfaenol sy'n hanfodol i lesiant pobl Cymru', a bod 'gwaith yn cael effaith sylfaenol ar bob rhan o fywyd gweithwyr a dinasyddion Cymru'. Yn sicr, gall gwaith gael effaith drawsnewidiol ar fywydau pobl Cymru - er gwell neu er gwaeth - a chytunwn y byddai rhoi trefniadau partneriaeth gymdeithasol ar sail statudol yn gallu bod yn un erfyn pwysig wrth geisio sicrhau tegwch a chydaddoldeb. Mae'n naturiol bod partneriaeth a thrafodaeth rhwng cyflogwyr, gweithwyr a Llywodraeth yn mynd i arwain at well dealltwriaeth rhwng y gwahanol bartïon, ac at bolisïau wedi'u seilio ar y gyd-ddealltwriaeth honno, yn hytrach na pholisïau unochrog.

Gweler ymateb TUC Cymru i'r ymgynghoriad hwn am enghreifftiau rhyngwladol ac astudiaethau sy'n amlinellu buddion dulliau partneriaeth gymdeithasol.

Cwestiwn 3: A ydych yn credu y dylem gyflwyno deddfwriaeth i orfodi'r penderfyniadau a wneir drwy bartneriaeth gymdeithasol, a pha gamau gorfodi y gellid eu cynnwys?

Ym marn UCAC, mi fyddai'n briodol sicrhau bod yr hawl i orfodi ar gael, gan gynnwys trwy ddeddfwriaeth. Heb yr hawl i orfodi, mi allai trefniadau torri lawr yn llwyr ar sail un o'r bartïon yn gwrthod cydweithio a/neu parchu penderfyniadau. Ond rhaid i'r gyfundrefn fod yn gymesur, yn weithredadwy, ac yn gydnaws â threfniadau sy'n ddibynnol ar gydb berthynas rhwng bartïon. Dylid sicrhau bod camau eraill ar gael ac yn cael eu gweithredu cyn symud at opsiwn gorfodaeth.

Cwestiwn 4: Ai dyma'r meysydd cywir ar gyfer deddfwriaeth i gyflawni ein cynigion i atgyfnerthu trefniadau partneriaeth gymdeithasol a sefydlu egwyddorion gwaith teg ledled Cymru?

Cytuna UCAC â'r meysydd a amlinellir.

Cwestiwn 5: A oes unrhyw gostau penodol neu ychwanegol yn gysylltiedig â'ch cynigion arfaethedig yr hoffech dynnu sylw atynt?

Mae'r Papur Gwyn hwn yn amlinellu cynigion ar gyfer Bil Partneriaeth Gymdeithasol i atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru, a darparu fframwaith i hyrwyddo cydraddoldeb cymdeithasol gwell ar gyfer gweithwyr yng Nghymru ar draws yr economi.

Cwestiwn A: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai 'Cymru Fwy Cyfartal: Atgyfnerthu Partneriaeth Gymdeithasol' yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau allai fod, yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

Cwestiwn B: Eglurwch hefyd sut ydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig 'Cymru Fwy Cyfartal: Atgyfnerthu Partneriaeth Gymdeithasol' gael ei lunio neu ei newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae ystyriaethau sy'n ymwneud â phrosesau caffael y gellid ac y dylid eu hystyried mewn perthynas â'r Gymraeg, ac a allai arwain at effeithiau cadarnhaol gan gynnwys ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae paragraff 80 o'r ddogfen ymgynghorol yn cyfeirio at yr angen i "wneud mwy i egluro bod mwy i werth am arian na chael pethau am y pris isaf". Cytunwn yn gyfan gwbl â hynny. Mae sicrhau caffael â phwyslais mwy lleol yn debygol o gael sgil effeithiau cadarnhaol ar fusnesau lleol a'r economi leol, a thrwy hynny mewn canran o achosion ar gwmnïau sy'n defnyddio ac yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

Ymhellach, pan mae'r caffael dan sylw ar gyfer gwasanaeth ble mae angen darpariaeth Gymraeg (e.e. er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg), rhaid sicrhau bod hynny'n cael ei amlinellu'n glir, ac mewn ieithwedd briodol yn y dogfennau caffael cychwynnol - a sicrhau bod gofyn am dystiolaeth gwbl ddibynadwy o allu'r cwmnïau sy'n cystadlu am y gwaith i gwrdd â'r gofyniad mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae digon o enghreifftiau o gwmnïau yn honni y gallant ddarparu yn unol â'r gofyniad am y Gymraeg, ond y realiti yw na allant; rhaid sicrhau bod gofyn iddynt roi dystiolaeth o'u methodoleg a'u capasiti cyn ennill contract. Fel arall, gall y gwaith a'r gost o geisio llenwi'r bwlch gwympo ar y darparwr sector cyhoeddus.

Mi ellid sicrhau bod y canllawiau statudol a grybwyllir, fyddai'n sail ar gyfer

Ilunio strategaeth gaffael cyrff cyhoeddus, yn cynnwys darpariaethau enghreifftiol clir iawn ynghylch yr uchod.

Cwestiwn C: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i sôn amdanynt.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Pe byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: